# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(162)

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1, 3 i 9, 11 a 12. Tynnwyd cwestiynau 2 a 10 yn ôl.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio

Dechreuodd yr eitem am 14.16

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 5 a 7 i 15. Cafodd cwestiynau 11 a 12 eu grwpio. Tynnwyd cwestiwn 6 yn ôl.

### 3 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar yr Ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad

Dechreuodd yr eitem am 14.58

**NDM5351 Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar yr ymchwiliad i Bresenoldeb ac Ymddygiad, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Awst 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.45

**NDM5353 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu cyhoeddiad diweddar Llywodraeth y DU ar yr argymhellion a geir yn Rhan 1 Silk 'Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Ariannol i Gryfhau Cymru';

2. Yn nodi y dylai cyflwyno Pwerau Benthyca i Lywodraeth Cymru gynorthwyo yn y broses o ddarparu prosiectau seilwaith allweddol ledled Cymru;

3. Yn croesawu ymhellach y datganiad y bydd uwchgynhadledd NATO yn cael ei chynnal yng ngwesty'r Celtic Manor yn 2014 ac yn nodi'r manteision economaidd uchel a ddylai ddod i economi Cymru yn sgîl cynnal digwyddiad o'r fath;

4. Yn edrych ymlaen at glywed sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r cyfleoedd hyn yn y ffordd orau i Gymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.47

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5354 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod y sector busnesau bach a chanolig yn cyfrif am 73% o'r holl gyflogaeth mewn ardaloedd gwledig a bod mentrau bach a chanolig yn chwarae rhan hanfodol yn nhwf economaidd cynaliadwy ardaloedd gwledig, o ran ysgogi arloesi a datblygu a helpu i fynd i'r afael â heriau allweddol diweithdra, mudo o'r wlad i'r dref a thlodi.

2. Yn nodi bod diffyg mynediad i gyllid yn amharu ar rôl bosibl busnesau bach a chanolig mewn datblygu economaidd gwledig.

3. Yn nodi'r heriau penodol o ran y nifer sy'n manteisio ar brentisiaethau mewn busnesau bach a chanolig.

4. Yn nodi bod y gagendor digidol o ran band-eang a signalau ffonau symudol yn rhwystro cystadleurwydd a hygyrchedd busnesau mewn ardaloedd gwledig.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) archwilio strwythur banc cymunedol i gynnal presenoldeb banciau lleol mewn cymunedau gwledig, ac i weithio gydag undeb credyd i gynyddu benthyca i fusnesau;

b) gweithio gyda busnesau yn y sectorau amaethyddol, ynni adnewyddadwy a thwristiaeth i nodi ffyrdd o oresgyn rhwystrau i gynyddu'r cyflenwad o brentisiaethau gwledig;

c) gwneud mynediad cyffredinol i fand-eang yn rhwymedigaeth i ddarparwyr a gweithio gydag Ofcom a gweithredwyr rhwydwaith i ymchwilio i rannu darpariaeth seilwaith mewn ardaloedd gwledig i sicrhau cymaint o ddarpariaeth â phosibl.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 0 | 49 | 54 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 2:

‘ac yn nodi anallu Cyllid Cymru i gynnig cyllid i fusnesau bach a chanolig ar gyfraddau cystadleuol’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 28 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 3:

‘ac yn cydnabod y camau cadarnhaol a gymerwyd drwy gytundeb cyllideb 2013/14 ar brentisiaethau rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru.’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 5 | 12 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt 4 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at yr effaith negyddol y mae cam-werthu cynnyrch gwarchod rhag risgiau cyfraddau llog gan fanciau'r stryd fawr wedi'i chael ar yr economi wledig.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 4 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi ymhellach y pwyntiau a amlinellir yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ynghylch prentisiaethau mewn ardaloedd gwledig.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt 5 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu bod cost tanwydd mewn ardaloedd gwledig yn cael effaith negyddol ar yr economi wledig, ac yn gresynu nad oedd cais Llywodraeth y DU i ehangu'r Ad-daliad Tanwydd Gwledig yn cynnwys unrhyw ardaloedd yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 17 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 5 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod seilwaith trafnidiaeth wledig effeithiol yn allweddol ar gyfer cymunedau gwledig ac yn hanfodol ar gyfer ysgogi datblygiadau economaidd a mynd i'r afael ag arwahanrwydd gwledig.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 5 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod baich ardrethi busnes ar fusnesau bach a chanolig gwledig ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno mwy o ryddhad ardrethi busnes i fusnesau bach ledled Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 28 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnwys is-bwynt 5b) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

'edrych ar beth yw manteision sefydlu banc busnes hyd braich, di-ddifidend, sy'n eiddo cyhoeddus, i fusnesau bach a chanolig gwledig, i gynnig cyllid ar gyfraddau cystadleuol i fusnesau bach a chanolig Cymru.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 5 | 12 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 8.**

**Gwelliant 9 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu is-bwynt 5c.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 26 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 9.**

**Gan fod gwelliant 9 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 10 ei ddad-ddethol.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5354 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod y sector busnesau bach a chanolig yn cyfrif am 73% o'r holl gyflogaeth mewn ardaloedd gwledig a bod mentrau bach a chanolig yn chwarae rhan hanfodol yn nhwf economaidd cynaliadwy ardaloedd gwledig, o ran ysgogi arloesi a datblygu a helpu i fynd i'r afael â heriau allweddol diweithdra, mudo o'r wlad i'r dref a thlodi.

2. Yn nodi bod diffyg mynediad i gyllid yn amharu ar rôl bosibl busnesau bach a chanolig mewn datblygu economaidd gwledig.

3. Yn nodi'r heriau penodol o ran y nifer sy'n manteisio ar brentisiaethau mewn busnesau bach a chanolig ac yn cydnabod y camau cadarnhaol a gymerwyd drwy gytundeb cyllideb 2013/14 ar brentisiaethau rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru.

4. Yn gresynu at yr effaith negyddol y mae cam-werthu cynnyrch gwarchod rhag risgiau cyfraddau llog gan fanciau'r stryd fawr wedi'i chael ar yr economi wledig.

5. Yn nodi ymhellach y pwyntiau a amlinellir yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ynghylch prentisiaethau mewn ardaloedd gwledig.

6. Yn credu bod cost tanwydd mewn ardaloedd gwledig yn cael effaith negyddol ar yr economi wledig, ac yn gresynu nad oedd cais Llywodraeth y DU i ehangu'r Ad-daliad Tanwydd Gwledig yn cynnwys unrhyw ardaloedd yng Nghymru.

7. Yn nodi bod seilwaith trafnidiaeth wledig effeithiol yn allweddol ar gyfer cymunedau gwledig ac yn hanfodol ar gyfer ysgogi datblygiadau economaidd a mynd i'r afael ag arwahanrwydd gwledig.

8. Yn nodi bod y gagendor digidol o ran band-eang a signalau ffonau symudol yn rhwystro cystadleurwydd a hygyrchedd busnesau mewn ardaloedd gwledig.

9. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) archwilio strwythur banc cymunedol i gynnal presenoldeb banciau lleol mewn cymunedau gwledig, ac i weithio gydag undeb credyd i gynyddu benthyca i fusnesau;

b) edrych ar beth yw manteision sefydlu banc busnes hyd braich, di-ddifidend, sy'n eiddo cyhoeddus, i fusnesau bach a chanolig gwledig, i gynnig cyllid ar gyfraddau cystadleuol i fusnesau bach a chanolig Cymru.

c) gweithio gyda busnesau yn y sectorau amaethyddol, ynni adnewyddadwy a thwristiaeth i nodi ffyrdd o oresgyn rhwystrau i gynyddu'r cyflenwad o brentisiaethau gwledig;

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 0 | 12 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd yr eitem am 17.49

## 6 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.53

**NDM5352 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Anghyfleusterau Cyhoeddus - Pam y mae Toiledau Cyhoeddus yn bwysig

Daeth y cyfarfod i ben am 18:16

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 19 Tachwedd 2013**